Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

17 Ionawr 2023

Annwyl Sophie,

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad adran 20 gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

Hoffwn ddiolch ichi a'ch tîm am y gwaith ar yr adolygiad adran 20 ac am y ffordd rydych wedi mynd ati i gydweithio â Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn darparu cyfle amserol a gwerthfawr inni gymryd eiliad i feddwl, i ystyried yr hyn rydym wedi ei gyflawni hyd yma, ac i'n helpu i achub ar gyfleoedd newydd i wella dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wrth wraidd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, ac i'w rhoi ar waith yn well.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol rydym wedi ei wneud o ran ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein ffordd o weithio ac yn cydnabod pa mor flaengar yw'r ddeddfwriaeth hon a pha mor aeddfed yw ein sefydliad o ran arwain ar newid, gan nodi meysydd lle y gallwn wella ar yr un pryd. Rydym wedi ystyried yr argymhelliad a wnaed i Lywodraeth Cymru yn adroddiad yr adolygiad ac wedi ei dderbyn, a byddwn yn mynd ati i ddilyn y camau gweithredu a nodir yn yr argymhellion. Mae crynodeb o'r safbwynt hwn wedi'i amgáu yn Atodiad A.

Mae ein hymateb i'ch argymhelliad yn derbyn yr angen i gyfleu'n well y camau rydym yn eu cymryd i wella'r ffordd rydym yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn gyson â'n safbwynt cyn yr adolygiad, ac â'n cytundeb ar y cyd ddechrau'r adolygiad.

Yn ogystal â mynd ati i gydweithio â'ch tîm ar yr adolygiad adran 20, penderfynom felly achub ar y cyfle i ddatblygu'r cynllun hwn, gan roi cyfle inni elwa ar yr adolygiad. O ganlyniad, byddwn yn cyhoeddi *Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llywodraeth Cymru ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-25* ar ffurf drafft cyn hir, gan nodi'r camau gwella y byddwn yn eu cymryd dros y cyfnod hwn i wella dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wrth wraidd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, ac i'w rhoi ar waith yn well.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Drwy weithredu fel hyn, credwn y byddwn hefyd yn rhoi arwydd pwysig i'r cyrff cyhoeddus fod yr agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn galw arnom i barhau i wella ac i fyfyrio.

Am ei bod yn ofynnol inni gyhoeddi ein hymateb i'ch argymhelliad, byddwn yn cyhoeddi'r llythyr hwn ar ein gwefan (https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol).



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Copi at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Atodiad A: Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad a wnaed iddi gan y Comisiynydd o dan adran 20 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i gorff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i ddilyn y camau gweithredu a nodir mewn argymhelliad a wneir iddo gan y Comisiynydd o dan y pŵer i gynnal adolygiad yn adran 20, oni bai bod y corff cyhoeddus yn fodlon bod rheswm da dros beidio â dilyn yr argymhelliad, neu os bydd yn penderfynu ar gamau gweithredu eraill. Rhaid i gorff cyhoeddus gyhoeddi ei ymateb i argymhelliad.

| **Adroddiad adolygiad adran 20 gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (Rhagfyr 2022)** |
|---|
| **Argymhelliad**<br>Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymryd camau i wella'n barhaus sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio ei gwaith i helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu hamcanion llesiant, gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a, thrwy wneud hynny, sicrhau bod cymaint â phosibl o gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun, yn nodi'r gwelliannau y bydd yn eu gwneud, sy'n mynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r meysydd i'w gwella a amlinellir yn yr Adroddiad Adran 20 hwn.<br>Dylai hyn gynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni camau gweithredu a threfniadau ar gyfer adrodd yn flynyddol, monitro ac adolygu cynnydd, a sut y bydd yn cydweithio ag eraill (gan gynnwys swyddfa'r Comisiynydd) i sicrhau y gall Llywodraeth Cymru barhau i fod ar flaen y gad o ran agenda llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agored gyda'r Comisiynydd i fonitro cynnydd y cynllun hwn. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar gynnydd y cynllun hwn ochr yn ochr â'i hadroddiad blynyddol. |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
| Mae Llywodraeth Cymru yn **derbyn** yr argymhelliad hwn.<br>Byddwn yn cymryd y camau canlynol er mwyn dilyn y camau gweithredu yn yr argymhelliad hwn:<br>• cyhoeddi *Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llywodraeth Cymru ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-25* erbyn mis Chwefror 2023 a fydd yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wrth wraidd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio a'i rhoi ar waith yn well. Bydd y cynllun hwn yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y cyfnod 2023-2025.<br>• rhoi sylwadau ar wahân i'r Comisiynydd ar y meysydd i'w gwella a nodir yn yr adroddiad adran 20 a, lle y bo'n berthnasol, nodi'r rhannau hynny o'r Cynllun sy'n mynd i'r afael â'r meysydd hyn i'w gwella.<br>• ymgorffori'r elfennau sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn gweithredu o fewn LlC2025, sef y rhaglen dair blynedd ar gyfer datblygu sefydliadol a'r llwyfan ar gyfer cynnal sgwrs â'r gweithlu am y newidiadau a'r gwelliannau y mae angen inni eu gwneud.<br>• trafod â Fforwm Rhanddeiliad Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yr elfennau o'r Cynllun sy'n canolbwyntio ar alluogi pobl eraill, er |

mwyn deall y cyfleoedd sydd ar gael i weithio gyda phobl eraill i wella dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i rhoi ar waith yn well.

- parhau i ddefnyddio Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru i fesur y ffordd y caiff yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei rhoi ar waith yn Llywodraeth Cymru, gan chwilio am gyfleoedd am ddata newydd i gefnogi'r darlun hwn o berfformiad.
- darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn flynyddol ar hynt y camau yn y Cynllun.
- nodi'r camau hynny y bydd angen cydweithio ag eraill arnynt, gan gynnwys pa gamau efallai y byddwn yn gofyn am gyngor a chefnogaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu cylch.
- achub ar gyfleoedd i roi camau ar waith a fydd yn arwain at fuddion cyflym, megis adolygu ac addasu trefniadau Hyrwyddwr y Bwrdd, ymgymryd â gwaith dadansoddi sicrwydd drwy'r Holiadur Rheolaeth Fewnol a gwella capasiti a galluogrwydd o ran y dyfodol
- cynnwys y gwaith parhaus o roi'r Cynllun ar waith fel eitem sefydlog yn ein cyfarfodydd chwarterol rhwng Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.